O dud. 10

rhyw weithgarwch cyffredin. Cynnig gwobr dda am draethawd neu ysgrif oedd y syniad cyntaf, ond gwell na hynny, meddai Islwyn, oedd cyhoeddi cylchgrawn i gynnwys gwaith aelodau'r dosbarthiadau.

Hynny fu. Erbyn Nadolig 1940 'roedd *Cefn Gwlad* ar werth. Argraffwyd pum cant o gopïau gan swyddfa'r 'Cyfnod', y Bala; 47 tudalen mewn clawr brown a'i bris yn chwecheiniog y copi. Bu cip mawr arno ac erbyn Mawrth 1941 'roedd pob copi wedi ei werthu. O hyn ymlaen, argraffwyd mil.

Yn y rhifyn cyntaf — a gyflwynwyd er ei bythol foddhad i Mrs Silyn Roberts, Trefnydd WEA Gogledd Cymru — mae amrywiaeth mawr; stori, ysgrif, canu caeth a rhydd ac erthyglau, atgofion. Cofiaf nad hawdd oedd perswadio rhai aelodau i fynd ati i sgrifennu ac mae amryw o'r cynhyrchion yn bethau a welodd brint am y tro cyntaf yn hanes eu hawduron.

* * * *

OND YR oedd Islwyn a minnau yn credu fod gan bob un ei ddeunydd ac mai'r prif gam anhepgor oedd ei gael i *sylweddoli* hynny a gweld fod yr hyn oedd ganddo yn werth ei ddweud am mai ef yn unig a *allai* ei ddweud.

Ac yn unigryw ei ddweud. Dyma Gruffydd Hughes, Llysgain, hanesydd ac athronydd ardal Dinmael yn sgrifennu am 'Ryddid' — cofier mai amser i ryfel oedd hi, ac yn dweud:

> *. . . y mae'n rhydd i'r person unigol pan fo gorchymyn y Wladwriaeth yn rhedeg yn groes i orchymyn Crist i ddewis ufuddhau i'w gydwybod yn hytrach nag i lais Senedd . . . Yn yr argyfwng heddiw, difreinir dyn o'i urddas, ac y mae dyn yn gaeth ymhobman heddiw. Siarter ei bersonoliaeth yw ei ryddid, ac ni ddygymydd dyn a roddes orsedd ei galon i Frenin Iesu â gormes swyddogion y Llywodraeth.*

Oedd, yr oedd ysbryd Jac Glan y Gors a radicaliaid y Rhyfel Degwm ar ôl hynny, yn dal yn fyw o hyd yn Uwchaled. Hyd y gwn, fel llawer un arall o'i genhedlaeth, ni chafodd Gruffydd fawr o ysgol: trwy ei ddarllen a'i chwilota ei hun y cafodd y cwbl oedd ganddo, ac wrth gwrs, trwy addysg Seiat ac Ysgol Sul.

'Nawr, dyma sy'n rhyfedd. Yn 1940, wrth ddarllen a golygu erthygl Gruffydd nid oeddwn yn synnu dim at ei safon am y rheswm mai dyna a ddisgwyliwn nid yn unig ganddo ef ond gan eraill o'r un oed ag ef. Rhai o'r un toriad yn y rhifyn cyntaf hwn yw T. O. Jones, Cernogie Bach; Lewis Morris, Pentrellyncymer; a beirdd fel William Jones, Nebo, a Lewis T. Evans — eto o Lyn Cymer.

* * * *

WRTH EDRYCH a gwrando heddiw ar lawer o'r rhaglenni holi-ac-ateb Cymraeg ar y teledu a'r holl stŵr a thaflu arian sydd ynglŷn â hwy, byddaf yn digalonni wrth weld y fath ddirywiad diwylliannol a ddigwyddodd inni mewn hanner canrif.

Arwyddair *Cefn Gwlad* ar y clawr blaen oedd 'Addysg yw Bywyd'. Heddiw, i bob golwg, yr arwyddair yn y rhaglenni hyn a'u tebyg yw 'Adloniant yw Bywyd', ac adloniant plentynnaidd at hynny. Llafur cariad oedd pob eitem yn *Cefn Gwlad*.

Mae'n demtasiwn sylwi ar y rhifynnau fu'n dilyn yr un cyntaf. Merch athrylithgar a fu'n athrawes ysgol gynradd fechan Tymawr, Cwmpenanner, oedd Mary Vaughan Jones ac yn y rhifynnau hyn gwelir ei gwaith fel bardd a llenor. Heddiw, coffâu amdani y mae'r brif wobr a ddyfernir am y gwaith gorau a gyhoeddir ar gyfer plant. Credaf mai yn *Cefn Gwlad* y cyhoeddwyd peth o'i gwaith cynharaf.

Llenor a bardd dawnus arall oedd R. E. Jones, Cwm Main (Llanuwchllyn wedyn). Wele baragraff o'i ysgrif ar 'Hen Lanciau'r Wenallt':

> *Yn wleidyddol, yr oeddynt yn Doriaid pybyr. Cofiaf fod Lewis wedi cael merlen newydd ac wedi bod ar ei chefn yn ffair y Bala, a minnau'n gofyn iddo sut oedd y ferlen yn plesio. 'Campus', meddai 'aeth yn ôl a blaen i'r Bala yn hollol dawel, dim ond moeli ei chlustiau wrth basio'r bachgen Cynlas 'na'. Wrth 'fachgen Cynlas', golygai gofgolofn Tom Ellis ar dref y Bala. Yr oedd hyd yn oed y ferlen yn Dori!*

Bardd mwyaf y cylchgrawn heb os oedd William Jones, Nebo. Y pryd hwn, cylch gweddol gyfyng a wyddai amdano a hyd heddiw, greda' i, nid yw wedi cael ei le a'r clod a haeddai. Ond mae ei briod farc ar bob llinell a phennill a wnaeth. Ef, ym Mehefin 1942, a enillodd gadair Eisteddfod y WEA yng Ngherrigydrudion am gerdd 'Bro'r Grug a'r Mawn'. Dyma'r clo:

> **Mae'r hen dyddynwyr a fu'n codi'r tanwydd**
> **Gynt o'th geulennydd ac yn dygnu i fyw'**
> **Heddiw yn ddarn o bridd**
> **Hiraethog gadarn**
> **Yn helpu Mai i lasu brigau'r yw.**

Un o feistri diamheuol cerdd dafod oedd William. Yn yr Eisteddfod hon y cwrddais ef gyntaf.

## HUW WILLIAMS ac atgofion Griffith Jones

# Hen helbul y ddau gofiant

LLYFRYN a gafodd gylchrediad eang oedd hwnnw mewn saith o benodau yn dwyn y teitl *Adgofion am y diweddar Barch Griffith Jones, Tre'garth*, gan 'R.O.' Bethesda, a'i gyhoeddi yng Nghaernarfon yn 1886. Dros y blynyddoedd bu llawer o ddyfynnu ar rai o'r 'ffraethebion' a geir ynddo, a bu'r cyhoeddiad yn gyfrwng i atgoffa'r genedl bod Griffith Jones — y gweinidog hwnnw gyda'r Methodistiaid Calfinaidd a 'wrthododd gymryd ei symud o'i fro gynefin' (ys dywedir yn *Y Bywgraffiadur Cymreig*) — yn dipyn o gymêr.

Cesglir oddi wrth 'Ragymadrodd' y llyfryn, sy'n ddyddiedig 'Dydd Gwyl Domos 1886' nad oedd R.O. yn gofiannydd wrth fodd calon teulu Griffith Jones, a dweud y lleiaf, ac mai dymuniad teulu'r pregethwr oedd gweld cyhoeddi cofiant iddo a fyddai'n rhywbeth amgenach a theilyngach o lawer na chasgliad o 'ffraethebion' ac 'ymadroddion'.

Beth ynteu yw cefndir yr anghydfod a fynegir mewn arddull eithaf prin gan R.O. — yr 'ufudd wasanaethydd' — yn ei 'Ragymadrodd' i'r llyfryn uchod, a pham y dywedir bod teulu Griffith Jones yn gwrthod ateb gohebiaeth oddi wrtho, heb sôn am roi iddo 'gydnabyddiaeth briodol' am ei lafur?

* * * *

I GYCHWYN y stori, bu Griffith Jones farw ar Ebrill 18, 1886, a chofnodwyd hanes ei angladd yn llawn yn rhifyn Mai 1, 1886 o'r *Goleuad*. Tair wythnos yn ddiweddarach — yn rhifyn Mai 22 — soniwyd mai purion fyddai gweld cyhoeddi cofiant iddo, a'r tebyg yw bod R.O. wedi dechrau casglu defnyddiau ar fywyd a gwaith Griffith Jones cyn gweld y sylw hwnnw, onid yn wir yn ystod bywyd yr hen bregethwr ffraeth.

Yn rhifyn Awst 7, 1886 o'r *Goleuad*, dan y teitl 'Cofiant y Parch Griffith Jones, Tregarth', cyhoeddwyd llythyr gan R. H. Jones, mab Griffith Jones, yn mynegi'n ddi-flewyn-ar-dafod yr hyn a deimlai am 'gymwynas' honedig R.O. Meddai:

> *. . . Nid oes a wnelom ni o gwbl ag R.O. Bethesda, ac mae yr ymgais anheilwng ac anfoneddigaidd o'i eiddo yn achosi llawer o boen a blinder i ni fel teulu. Pell yw y syniad oddi wrthym ni o wneuthur unrhyw elw ar gymeriad ein diweddar annwyl dad, ac y mae arnom awydd dwfn am gael coffadwriaeth deilwng iddo. Apeliwn yn ostyngedig at y cyhoedd am eu cefnogaeth i ddwyn allan gofiant a gynrychiola yn deg i'r wlad garacter ein diweddar annwyl dad, ac nid casgliad o chwedlau na pherthynant o bosibl y filfed radd iddo.*

Yr hyn oedd yn peri poen a blinder i fab Griffith Jones a'r teulu mae'n amlwg oedd bod R.O. wedi dewis mabwysiadu arddull ysgafn ac atgofus wrth drin a thrafod uchafbwyntiau yng ngyrfa Griffith Jones, ond yr hyn a ddymunai'r teulu ei weld oedd cyhoeddi cofiant i'r hen batriarch wedi ei batrymu ar rai o gofiannau mawr rhai o hoelion wyth chwarter olaf y ganrif ddiwethaf.

Ar dudalen flaen rhifyn Awst 28, 1886 o'r *Goleuad* — tair wythnos ar ôl cyhoeddi llythyr R. H. Jones — ymddangosodd y nodyn a ganlyn:

> *Dygir allan ar fyrder o dan nawdd Cyfarfod Misol Arfon gofiant y Parchedig Griffith Jones, Tregarth, o dan olygyddiaeth y Parch J. Mostyn Jones, Gerlan, gydag Ysgrifau gan y Parch Thomas Roberts, Bethesda, Thomas Lewis, A.S., Gaerwenydd, ac eraill.*

'Roedd copïau i'w cael am ddeuswllt yr un, meddir, gyda'r ceisiadau i'w hanfon at R. H. Jones, ond yr hyn na sylweddolodd mab y Parchedig Griffith Jones ar y pryd mae'n amlwg oedd bod y pedwar a enwodd fel cyfranwyr i gofiant ei dad eisoes wedi cyfrannu i'r gyfrol o *Adgofion* gan R.O.

Yn ôl y 'Rhagymadrodd' i'r *Adgofion*, fe addefodd y Parch J. Mostyn Jones mewn llythyr at R.O. mai yn ei absenoldeb y dewiswyd ef gan Gyfarfod Misol Arfon i olygu cofiant Griffith Jones, ac mai'n groes i'r graen yr ufuddhaodd i'w gais!

* * * *

YN 1887, sef ychydig fisoedd ar ôl cyhoeddi'r *Adgofion* am Griffith Jones gan R.O., gwelodd 'cofiant swyddogol' yr hen bregethwr olau dydd dan y teitl, *Cofiant, Pregethau, a Ffraethebion y Parch Griffith Jones, Tregarth*, wedi ei argraffu gan Davies ac Evans yn Swyddfa Pulpud Cymru yn y Bala. Dyddiwyd rhagair y gyfrol Mawrth 14, 1887, a cheir y geiriau 'Cyhoeddedig gan y Teulu' wedi ei argraffu'n amlwg ar wynebddalen y gyfrol, yn ogystal ag ar y dudalen olaf.

Nid oes gennyf unrhyw syniad faint o gopïau o'r ddau gyhoeddiad uchod a argraffwyd, ond am bob copi o'r cofiant 'swyddogol' a welais dros y blynyddoedd mewn siopau ail-law ac yn llyfrgelloedd y gwahanol gapeli, gwn imi weld llu o gopïau o'r *Adgofion*. A gwn hefyd mai o'r *Adgofion* — yn ddi-eithriad — y byddai'r hen bregethwyr yn dyfynnu o rai o anerchiadau ffraeth Griffith Jones, ac nid o'r cofiant swyddogol bondigrybwyll!